



Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Llunio Cod Ymddygiad wrth Deithio newydd i Gymru gyfan

Mai 2016

Llunio Cod Ymddygiad wrth Deithio newydd i Gymru gyfan

Cynulleidfa

Llywodraeth leol, ysgolion, dysgwyr, rhieni/gofalwyr, gweithredwyr cludiant a'r sector wirfoddol.

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys crynodeb o'r ymatebion, ynghyd ag ymateb Llywodraeth Cymru, mewn perthynas â'r ymgynghoriad ar Lunio Cod Ymddygiad wrth Deithio newydd i Gymru gyfan a gynhaliwyd rhwng 18 Tachwedd 2015 a 10 Chwefror 2016.

Camau i'w cymryd

Dim – er gwybodaeth yn unig.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

John Griffiths
Polisi, Cynllunio a Phartneriaethau
Yr Adran Drafnidiaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 029 2080 1010
e-bost: TravelBehaviourCodeMailbox@cymru.gsi.gov.uk

Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn
<http://gov.wales/consultations/education/producing-a-new-travel-behaviour-code/?skip=1&lang=cy>

Dogfennau cysylltiedig

Llunio Cod Ymddygiad wrth Deithio newydd i Gymru gyfan (2015)

Cynnwys

Cefndir	2
Crynodeb o'r ymatebion	3
Ymateb Llywodraeth Cymru	8
Atodiad: Rhestr o gyfranwyr (gan eithrio'r rhai hynny na gytunodd i rannu eu manylion)	10

Cefndir

Mae'r Cod Ymddygiad wrth Deithio statudol yn pennu'r safonau ymddygiad disgwyliadwy gan ddysgwyr ar deithiau o'r cartref i'r ysgol, waeth sut y maent yn teithio. Mae'n pennu eu hawliau a'u cyfrifoldebau ac yn rhoi cyngor ar deithio'n ddiogel. Bu'n weithredol ers Ionawr 2010.

O dan adran 12(4) y Mesur Teithio gan Ddysgwyr 2008, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru adolygu'r Cod Ymddygiad wrth Deithio o bryd i'w gilydd. O dan 12(6) o'r un Mesur, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r rhai priodol cyn gwneud neu ddiwygio'r Cod Ymddygiad wrth Deithio.

Ym mis Ionawr 2015, comisiynwyd Dynamix gan Lywodraeth Cymru i gynnal gweithdai ymgynghori gyda dysgwyr rhwng 12-18 oed ledled Cymru i gael eu barn ar ddatblygu Cod Ymddygiad wrth Deithio newydd. Codwyd nifer o faterion gan y dysgwyr :

- Nid oedd y neges gwrth-fwllo o fewn y Cod Ymddygiad wrth Deithio yn ddigon cadarn
- Hoffai'r dysgwyr i'r amgylchedd ar y bws fod yn ddiogel, cyfforddus a phositif ac i gael hawl i fwyta ac yfed
- Mae'r dysgwyr yn credu bod y Cod Ymddygiad wrth Deithio yn aneffeithiol a bod diffyg fframwaith ategol o strwythurau a dulliau o fynd i'r afael ag ymddygiad gwael.
- Nid oes monitor bws ar bob gwasanaeth. Ar y gwasanaethau hynny heb fonitor bws, nid oes neb yno i arolygu'r teithiau bws i'w gwneud yn fwy diogel.
- Nid oes system wedi'i sefydlu i wobrwyo ymddygiad da a dim cysylltiad rhwng y Cod Ymddygiad wrth Deithio â pholisïau ymddygiad yr ysgol.
- Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos yn dilyn hyn ar ddiwygio'r Cod Ymddygiad ar gyfer Teithio rhwng 18 Tachwedd 2015 a'r 10 Chwefror 2016. Roedd yr ymgynghoriad yn seiliedig ar safbwyntiau dysgwyr fel a amlinellir uchod. I gydymffurfio â Deddf Gydraddoldeb 2010, datblygodd swyddogion fersiynau dwyieithog Hawdd eu Deall o'r ddogfen a'r cwestiynau ymgynghori, gan sicrhau bod fersiynau Braille ar gael o wneud cais amdanynt.

Cafodd yr ymgynghoriad farn ar y canlynol:

- Pa gynigion sy'n cael eu hargymell i fynd i'r afael â bwllo ac ymddygiad gwrth-gymdeithasol
- Pa strwythurau/dulliau ddylid eu hychwanegu i gadarnhau'r Cod Ymddygiad wrth Deithio
- Pwy, yn ogystal â dysgwyr o Flynyddoedd 11, 12 neu 13, ddylai fod yn fonitoriaid ar fysiau
- Sut y gellid sicrhau bod y Cod Ymddygiad wrth Deithio yn fwy deniadol i ddysgwyr a
- Sut y gellid hyrwyddo ymwybyddiaeth a gwybodaeth am y Cod Ymddygiad wrth Deithio ymysg rhanddeiliaid

Crynodeb o'r ymatebion

Roedd y gyfradd ymateb yn isel gyda 33 o atebion drwy'r Blwch Post Ymddygiad Teithio:

Dulliau	Nifer yr Ymatebion
Ffurflen Ymateb	28
Ffurflen Hawdd i'w Darllen	3
Arall	2

Yr ymatebion a gafwyd gan grwpiau ac unigolion:

Aelodau'r cyhoedd	2
Y Sector Addysg: Ysgolion, undebau athrawon (gan gynnwys Cabinet Ieuenctid yr Awdurdod Lleol)	11
Elusennau/sector gwirfoddol	2
Awdurdodau lleol, grwpiau ieuenctid yr awdurdod lleol	17
Sefydliadau trafndiaeth	1

Cwmpas y Dadansoddiad

Daeth yr ymateb i'r ddogfen ymgynghori gan yr awdurdodau lleol yn bennaf a'r sector addysg. Rhoddodd Cabinet Ieuenctid yr awdurdodau lleol adborth bwysig a defnyddiol ar gludiant i'r ysgol. Roedd ei argymhellion ar gyfer gwella gwasanaethau cludiant i'r ysgol yn cynnwys:

- Dylai adran yr awdurdod lleol weithio gyda cwmnïau cludiant sydd ar gontract i wella gwasanaethau cludiant i'r ysgol
- Dylid gwneud mwy o waith i wella diogelwch
- Dylid cael athro/athrawes benodol ym mhob ysgol sydd â chyfrifoldeb am faterion sy'n gysylltiedig â chludiant i'r ysgol
- Dylai Cyngorau yr Ysgol drafod materion sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth i'r ysgol yn rheolaidd a
- Dylai pob teithiwr wybod sut i gofnodi digwyddiadau ar y daith rhwng y cartref a'r ysgol

Daeth llawer o gymorth mewn egwyddor i ddatblygu Cod Ymddygiad wrth Deithio newydd ac i greu amgylchedd well, fwy diogel i ddysgwyr ar y daith rhwng y cartref a'r ysgol. Fodd bynnag, rhoddodd yr ymatebwyr nifer o amodau i'w cefnogaeth i rai cynigion, ac ni fu i'r cynnig i ganiatáu i ddysgwyr fwyta ac yfed ar gludiant ysgol ddenu cefnogaeth gan bawb.

Dadansoddiad o'r Ymatebion

Roedd pob un o gwestiynau'r ymgynghoriad yn agored. O ganlyniad, nid yw'r adroddiad hwn yn cynnwys dadansoddiad meintiol o'r ymatebion.

Roedd yr ymatebwyr yn mynegi amrywiol ymatebion o blaid y safbwyntiau i greu Cod Ymddygiad wrth Deithio mwy effeithiol ac iddo gael ei ategu gan fframwaith cynhwysol o dulliau o'i wneud yn fwy effeithiol.

Bwlio

Dylid cryfhau unrhyw negeseuon gwrth-fwlio o fewn y Cod Ymddygiad wrth Deithio a chanllawiau statudol y Cod Ymddygiad wrth Deithio cysylltiedig. Roedd cydnabyddiaeth gyffredinol fod bwlio yn broblem sydd angen mynd i'r afael â hi a bod angen i fwllis fod yn atebol am eu hymddygiad.

Roedd cefnogaeth gyffredinol i gysylltu'r Cod Ymddygiad wrth Deithio â pholisïau ymddygiad yn yr ysgol; agenda gwrth-fwlio Parchu Eraill Llywodraeth Cymru; a'r Fframwaith Troseddau Casineb.

Dylai'r tîm Teithio gan Ddysgwyr ddefnyddio gwaith 'Grŵp Arwain Gwrth-fwlio Cymru Gyfan', a gellid trosglwyddo'r polisïau i gludiant i'r ysgol.

Arolygu

Roedd yr ymatebwyr yn cydnabod yr angen i arolygu teithiau rhwng y cartref a'r ysgol er bod gwahanol farn ar bwy ddylai wneud hyn.

O ran dysgwyr yn gweithredu fel monitoriaid ar fysiau, roedd yr ymatebwyr yn bryderus ynghylch hyfforddiant, arweiniad a diogelwch yr arweinwyr a enwebwyd. Roedd yn rhaid ystyried lles hefyd, megis y posibilrwydd i fonitoriaid gael eu cosbi gan rieni neu gyfoedion.

Dywedodd Estyn “*y byddai angen canllawiau llym, yn enwedig wrth ystyried dysgwyr ar gyfer y swydd hon, o ran disgwyliadau'r swyddogaeth ac o ran ystyried materion ieuchyd a diogelwch wrth deithio yn ofalus yn gysylltiedig â hyn. Er enghraifft, dylid nodi na ddylai monitoriaid ddiosg eu gwregysau diogelwch na symud o'u seddi tra bo'r bws yn symud.*”

Contractau Ymddygiad wrth Deithio

Cytunodd yr ymatebwyr y byddai contractau wedi'u llofnodi rhwng dysgwyr, rhieni, cwmnïau ac awdurdodau lleol yn meithrin ymdeimlad o berchnogaeth ar y cyd i sicrhau, cyn belled ag yr oedd yn ymarferol, ddiogelwch y daith rhwng y cartref a'r ysgol. Byddai angen i'r contractau bennu yr hyn sydd i'w ddisgwyl gan bob rhanddeiliad, gan gynnwys eu cyfrifoldebau. Dywedodd yr undeb athrawon, NASUWT, “*y gallai defnyddio contractau ymddygiad ar gyfer cludiant rhwng y cartref a'r ysgol a rhieni a dysgwyr fod yn ddull defnyddiol o fynd i'r afael ag ymddygiad gwrth-gymdeithasol/bwlio pan na lwyddwyd i gadw at y Côd newydd.*”

Roedd sylwadau yr awdurdod lleol yn cynnwys y byddai contractau yn faich gweinyddol; ac y gellid defnyddio telerau ac amodau y contractau i gyflawni hyn yn well.

Hyfforddiant ar gyfer Gyrwyr Trafnidiaeth Ysgol

Dylai'r hyfforddiant (y gellid ei gynnwys o fewn yr hyfforddiant Tystysgrif Cymhwysedd Proffesiynol) gynnwys ymwybyddiaeth o gydraddoldeb, anabledd, delio gyda/rheoli ymddygiad heriol, anghenion dysgu ychwanegol a diogelu. Dywedodd ymatebwr y byddai angen safonau a chanllawiau cenedlaethol, gan gynnwys cyllid gan Lywodraeth Cymru.

System gofnodi glir

Byddai angen i systemau cofnodi fod yn gyson ac yn safonol ledled Cymru. Gellid annog cwmnïau i gynhyrchu adroddiadau misol.

Teledu Cylch Cyfyng

Gallai hyn ddarparu tystiolaeth o gam-ymddwyn ac osgoi erledigaeth annheg. Dywedodd rhai o'r ymatebwyr y byddai gosod teledu cylch cyfyng yn fuddsoddiad sylweddol ar gyfer cwmnïau/awdurdodau lleol, ac y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu cyllid os yw'n penderfynu deddfu ar osod teledu cylch cyfyng, i gynnwys hyfforddiant staff. Dylid cael safonau cenedlaethol ar gyfer gosodiadau teledu cylch cyfyng.

Amgylchedd diogel, cyfforddus a phositif ar y bws

Dylai'r Cod Ymddygiad wrth Deithio newydd rybuddio yn erbyn peryglon (sbwriel, rhwystrau ar lwybrau cerdded, perygl o lithro) i geisio gwella'r amgylchedd.

Gwobrwyo ymddygiad da

Er yn denu elfen o gefnogaeth, roedd rhai ymatebwyr yn holi a oedd yn dderbyniol i wobrwyo dysgwyr am ymddwyn fel y dylent. Dywedodd rhai ymatebwyr y byddai goblygiadau o ran cyllideb yr ysgol; y gallai'r system wobrwyo fod yn anghyson ac yn anghyfartal ledled Cymru; ac y byddai angen arweiniad ar ysgolion ar weinyddu'r system.

Bwyta ac yfed ar drafnidiaeth ysgol

Nid oedd 58% o'r ymatebwyr (gan gynnwys awdurdodau lleol, y sector addysg a sefydliadau'r trydydd sector) yn cytuno â'r cynnig hwn am nifer o resymau:

- Roedd amodau cludo y rhan fwyaf o gwmnïau bysiau yn pennu nad oedd bwyd a diod i gael eu bwyta a'u hyfed ar fysiau – mewn un achos, roedd cwmni bysiau wedi derbyn PG9 (gwaharddiad gohiriedig) gan Archwilydd DVSA gan bod rhôl selsig ar sedd. Mae goblygiadau difrifol i PG9 o ran Sgôr Risg Cydymffurfio Cwmni, sy'n elfen bwysig pan fydd y DVSA a'r Comisiynydd Traffig yn penderfynu a oes angen i gwmnïau ymddangos o flaen Ymchwiliad Cyhoeddus.
- Bydd y sbwriel ychwanegol yn golygu y bydd cynnydd yng nghostau glanhau y cwmnïau
- Mae angen i fysiau sy'n cael eu defnyddio ar gyfer cludiant i'r ysgol fod mor lân â phosibl gan eu bod yn cael eu defnyddio'n aml at ddibenion eraill yn dilyn teithiau ysgol
- Gall bwyd a diod gael eu taflu wrth fwlio a gallai dysgwyr sydd ag alergeddau fod mewn perygl
- Mae teithiau rhwng yr ysgol a'r cartref yn gymharol fyr

Dywedodd Cyngor Sir Penfro y byddai caniatáu i “*ddisgyblion fwyta ac yfed ar fws yr ysgol arwain at oblygiadau diogelwch difrifol o ran alergeddau yn ogystal â phroblemau gadael sbwriel ar gerbydau neu eu defnyddio i'w lluchio ar y bws. Hefyd, byddem yn rhagweld gwrthwynebiad cryf gan gwmnïau bysiau sydd fel arfer yn mabwysiadu polisi o beidio bwyta nag yfed ar eu cerbydau.*”

Ni wnaeth 30% o ymatebwyr fynegi barn ar y cynnig hwn tra bo 12% o'r ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig, gan gynnwys NASUWT Cymru a Chyngor Ieuenctid Castell-nedd Port Talbot. Roedd yr olaf yn nodi, os oes biniau ar fysiau yna "*dylai pobl ifanc gael bwyta ac yfed. Efallai nad yw rhai pobl ifanc wedi bwyta brecwast am wahanol resymau a bod angen iddynt fwyta bwyd ar y bws.*"

Hyrwyddo gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o'r Cod Ymddygiad wrth Deithio

Roedd ymatebwyr yn gefnogol, gan awgrymu amrywiol ddulliau o godi ymwybyddiaeth: ymgyrch deledu, gweithdai mewn ysgolion/grwpiau ffocws, gwasanaethau ysgol, cyfryngau cymdeithasol, ap ar gyfer ffônau symudol, taflenni/posteri mewn llyfrgelloedd neu ar gludiant i'r ysgol, cyhoeddi prif bwyntiau y Cod Ymddygiad wrth Deithio ar gefn pasys bws, rhoi gwybodaeth i ddysgwyr am y Cod Ymddygiad wrth Deithio yn ystod y cyfnod pontio rhwng addysg gynradd ac uwchradd, gan gynnwys cynhyrchu amrywiol ddeunyddiau hyfforddi. Dylai'r Cod Ymddygiad wrth Deithio fod ar gael mewn amrywiol fformatau gyda fersiynau gwahanol i dargedu gwahanol ystod oedran mewn ieithwedd sy'n addas i'r oedran.

Materion eraill a gododd mewn ymateb i'r ymgynghoriad

Cyfrifoldebau rhanddeiliaid

- Mae gan rieni gyfrifoldeb i addysgu eu plant i ymddwyn yn dda, gan gynnwys y Cod Ymddygiad wrth Deithio
- Mae gan ysgolion gyfrifoldeb i fynd i'r afael ag ymddygiad ar y daith rhwng y cartref a'r ysgol (y tu allan i safle yr ysgol)
- Dylai Adrannau Cludiant rhwng y Cartref a'r Ysgol yr Awdurdodau Lleol gydweithio'n agos â chwmnïau cludiant dan gontract i sicrhau glanweithdra, diogelwch a bod ar amser
- Mae angen i wahanol randdeiliaid/partneriaid gydweithio i sicrhau bod y Cod Ymddygiad wrth Deithio, gan gynnwys y fframwaith cyffredinol sy'n ei gefnogi, yn gweithio'n effeithiol

Mynd i'r afael ag ymddygiad gwrth-gymdeithasol

- Nid yw'r system gosbau bresennol yn ddigon cadarn i fynd i'r afael ag achosion o ymddygiad anghymdeithasol/peryglus difrifol. Dylid defnyddio system mwy cadarn fel bod modd defnyddio cosbau llymach i ddelio â throseddau difrifol
- Dylai arolygwyr bysiau o gwmnïau bysiau gael eu rhoi ar deithiau lle mae llawer o ymddygiad gwael
- Dylid rhannu grwpiau blwyddyn ar fysiau dwbl i leihau achosion o ymddygiad gwael
- Dylid gwahardd teithio ar gludiant i'r ysgol ar unwaith yn dilyn ymddygiad difrifol
- Dylid datblygu system rybuddio ar ffurf goleuadau traffig am ymddygiad gwael
- Mae angen ystyried mynd i'r afael â phroblemau ymddygiad AAA

Gwell diogelwch dysgwyr

- Dylai dysgwyr wybod sut i gofnodi achosion o ymddygiad anghymdeithasol/peryglus ar y daith rhwng y cartref a'r ysgol
- Hyfforddi disgyblion i'w haddysgu ynghylch eu hawliau, eu cyfrifoldebau a'u diogelwch wrth deithio – mae hyn wedi'i weithredu gan Gyngor Sir Penfro.

- System 'bydi' i baru dysgwyr hŷn gyda dysgwyr iau fel ffynhonell cyngor a chymorth
- Gallai swyddogion yr heddlu (er enghraifft, o'r Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan) ddarparu dosbarthiadau/gweithdai ar ymddygiad diogel wrth deithio mewn ysgolion cynradd ac uwchradd

Swyddogaeth Ysgolion/athrawon

- Mae angen i bob ysgol gael athro penodol ar gyfer materion cludiant i'r ysgol (neu swyddog penodol ym mhob ysgol sy'n gallu cyfathrebu'n uniongyrchol gyda darparwyr gwasanaethau)
- Dylai Cyngorau Ysgolion drafod materion sy'n gysylltiedig â chludiant i'r ysgol yn rheolaidd i sicrhau gwelliant parhaus i wasanaethau
- Dylai adroddiadau Penaethiaid i Lywodraethwyr Ysgolion gynnwys materion sy'n gysylltiedig â chludiant i'r ysgol i godi eu proffil

Amrywiol

- Dylai gan unrhyw newidiadau sy'n cael eu cyflwyno gan Lywodraeth Cymru sydd â goblygiadau ariannol i awdurdodau lleol gael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru oherwydd pwysau ariannol ar lywodraeth leol
- Dywedodd 85% o'r dysgwyr gymerodd ran mewn arolwg Cabinet leuenctid nad oeddent wedi clywed am y Cod Ymddygiad wrth Deithio
- Dylai cwmnïau teithio fod yn bresennol yng nghyfarfodydd rhieni Blwyddyn 7 cyn dechrau tymor yr Hydref i drafod materion sy'n gysylltiedig â chludiant i'r ysgol
- Roedd ymatebwr yn pryderu bod cynigion yr ymgynghoriad yn seiliedig ar safbwyntiau dysgwyr yn hytrach nag ar safbwyntiau rhanddeiliaid (ysgolion, cwmnïau teithio ac ati) heb roi llawer o ystyriaeth, neu dim ystyriaeth o gwbl i oblygiadau ymarferol bodloni dyheadau'r dysgwyr.

Casgliadau

Roedd ymatebion yr ymgynghoriad yn nodi bod cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig i greu Cod Ymddygiad wrth Deithio newydd. Mae'r ymatebwyr yn amlwg yn cytuno bod cysylltiad rhwng teithio diogel ac ymddygiad da. Mae cefnogaeth i sicrhau amgylchedd diogel ar gyfer teithio rhwng y cartref a'r ysgol i ddysgwyr.

Roedd ymatebwyr yn herio rhai agweddau penodol nifer o gynigion, megis y rhai ar fonitro bysiau a gwobrwyo dysgwyr am ymddygiad da. Bydd angen i Lywodraeth Cymru ddiffinio'n glir ffurf a chynnwys y cynigion hyn drwy roi canllawiau tra'n rhoi'r hawl i randdeiliaid weithredu eu polisïau eu hunain yn eu ffyrdd eu hunain.

Nid oedd y cynnig i ganiatáu i ddysgwyr fwyta ac yfed ar drafnidiaeth yr ysgol yn denu cefnogaeth gyffredinol. Byddai'r arfer yn golygu torri amodau cludo mwyafrif y cwmnïau.

Roedd yr ymateb yn cydnabod pwysigrwydd cydweithio rhwng rhanddeiliaid a gweithredu'r Cod Ymddygiad wrth Deithio, a'r posibilrwydd i drefniadau y contract rhyngddynt feithrin teimlad cyffredin o gyfrifoldeb i sicrhau diogelwch.

Ar y cyfan, roedd yr ymateb yn canolbwyntio ar deithio ar fysiau. Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio bod y Cod Ymddygiad wrth Deithio yn berthnasol i bob math o deithio, gan gynnwys cerdded neu feicio.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Bwlio – Roedd ymatebion yr ymgynghoriad yn dangos cefnogaeth i ddarparu Cod Ymddygiad wrth Deithio gyda fframwaith cyffredinol o ddulliau o'i gefnogi, fel ei fod yn fwy effeithiol wrth leihau neu rwystro ymddygiad gwrth-gymdeithasol ar y daith rhwng y cartref a'r ysgol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn diwygio canllawiau statudol y Cod Ymddygiad wrth Deithio i gysylltu'r Cod Ymddygiad wrth Deithio gyda'r canlynol:

- Mae agenda gwrth-fwlio Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys amrywiol ddulliau sy'n bodoli eisoes megis gwasanaethau cwnsela yn yr ysgol; gwasanaethau cefnogi cyfoedion; 'blychau pryderon'; a'r model dulliau adferol
- Mae polisïau Ymddygiad yn yr Ysgol, yn enwedig y Cod Ymddygiad wrth Deithio yn rhan o bolisi ymddygiad yr ysgol. Mae'n bosib y bydd achosion pan y gellir delio ag ymddygiad gwael rhwng y cartref a'r ysgol o dan bolisïau ymddygiad yn yr ysgol/gwrth-fwlio unigol.
- Mae Fframwaith Troseddau Casineb Llywodraeth Cymru, yn anelu at fynd i'r afael â gelyniaeth tuag at y rhai hynny sydd â nodweddion gwarchodedig fel y'u ddiffinir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Er mwyn cynnwys y Fframwaith Troseddau Casineb mewn polisïau ac arferion, mae Llywodraeth Cymru yn argymhell y dylai ysgolion ac awdurdodau lleol gydweithio â'r Rhwydwaith Bwlio Cymru Gyfan i gynnwys y Fframwaith yn eu rhaglenni hyfforddi a'u hymyriadau.

Goruchwyllo – Bydd Llywodraeth Cymru yn diwygio canllaw statudol y Cod Ymddygiad wrth Deithio i bennu y dylai ysgolion ac/neu awdurdodau lleol benderfynu eu hunain a ddylid defnyddio monitoriaid ar fysiau. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn argymhell y dylai monitoriaid ar fysiau dderbyn arweiniad a chanllawiau ar eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau, gan gynnwys unrhyw ystyriaethau iechyd a diogelwch.

Contractau Ymddygiad wrth Deithio – bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i gyflwyno Cod Ymddygiad anstatudol sy'n egluro swyddogaethau a chyfrifoldebau awdurdodau lleol, rhieni, dysgwyr, hebryngwyr a chwmnïau trafnidiaeth er mwyn sicrhau taith ddiogel.

Hyfforddiant ar gyfer Gyrwyr Bysiau Cludiant i'r Ysgol – bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i gyflwyno cwrs i hyffordd gyrwyr ledled Cymru i'r rhai hynny sy'n gweithio ar gludiant i'r ysgol (a allai fod yn rhan o hyfforddiant Tystysgrif Cymhwysedd Proffesiynol Gyrwyr, fel yr un sy'n cael ei redeg gan Gonsortïwm Cludiant Integredig De-orllewin Cymru (SWWITCH) ar hyn o bryd. Mae'r hyfforddiant hwn yn sicrhau bod gyrwyr yn cael eu hyfforddi i safon uchel yn barhaus a bod safonau uchel ac y darperir gwasanaethau diogel.

System Gofnodi glir – Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i sefydlu dulliau o gofnodi a ffurflen Cofnodi Digwyddiad safonol i'w defnyddio gan gwmnïau, dysgwyr, ysgolion, hebryngwyr a rhieni ledled Cymru i gofnodi digwyddiadau yn ystod teithiau rhwng y cartref a'r ysgol. Bydd hyn yn ei gwneud yn haws i fonitro a nodi yr arfer gorau.

Teledu Cylch Cyfyng – Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gost i gwmnïau/awdurdodau lleol o'i wneud yn orfodol i osod Teledu Cylch Cyfyng ar gludiant i'r ysgol. Byddai angen is-ddeddfwriaeth ar gyfer gosod teledu cylch cyfyng o dan y Mesur ynghylch Diogelwch ar Gludiant i Ddysgwyr (Cymru) 2011. Bydd Llywodraeth Cymru yn gadael i gwmnïau ac awdurdodau lleol benderfynu a ydynt am osod teledu cylch cyfyng ai peidio.

Amgylchedd diogel, cyfforddus a phositif ar y bws – bydd Llywodraeth Cymru yn:

- cynnwys negeseuon sy'n rhybuddio dysgwyr am beryglon sbwriel a rhwystrau yn y Cod Ymddygiad wrth Deithio newydd
- annog ysgolion i ddatblygu a gweithredu system 'bydi' ble y caiff dysgwyr hŷn eu paru â dysgwyr ieuengach ar y daith rhwng y cartref a'r ysgol.
- annog awdurdodau lleol i ddatblygu a chynnal cyrsiau hyfforddi dysgwyr, er enghraifft, ar ddiogelwch teithwyr, pwysigrwydd gwregysau diogelwch, canlyniadau tynnu sylw'r gyrwr a gweithdrefnau gadael mewn argyfwng

Gwobrwyo ymddygiad da – bydd Llywodraeth Cymru yn darparu canllawiau i ysgolion sy'n penderfynu gwobrwyo ymddygiad da ar y daith rhwng y cartref a'r ysgol.

Bwyta ac yfed ar gludiant i'r ysgol – bydd Llywodraeth Cymru yn gadael i'r cwmnïau bysiau benderfynu a ydynt am ganiatáu hyn. Efallai y gellid caniatáu bwyta ac yfed mewn amgylchiadau penodol, er enghraifft, yfed dŵr pan fydd y tywydd yn boeth neu ganiatáu i ddysgwyr sydd â chyflyrau meddygol, fel clefyd siwgr, i fwyta pan fo angen.

Datblygu'r Cod Ymddygiad wrth Deithio – bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu a gweithredu Cod Ymddygiad wrth Deithio ar ffurf a fformat addas at oedran dysgwyr cynradd ac uwchradd; a Cod Ymddygiad wrth Deithio ar wahân ar gyfer dysgwyr AAA.

Hyrwyddo gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o'r Cod Ymddygiad wrth Deithio - pan fydd y Cod Ymddygiad wrth Deithio yn barod, bydd Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i sicrhau ei fod yn cael ei hyrwyddo a'i ddosbarthu ymysg rhanddeiliaid.

Atodiad: Rhestr o gyfranwyr (gan eithrio'r rhai hynny na gytunodd i rannu eu manylion)

Awdurdodau Lleol a Chynghorau

Cyngor Sir Gwynedd
Bro Morgannwg
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Dinas a Sir Abertawe
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Cyngor Sir Powys
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Cyngor Sir Penfro
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Cyngor Sir Casnewydd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Addysg

Y Gwasanaeth Addysg Catholig
Cyngor yr Ysgol, Ysgol Gymraeg Ifor Hael
Cymdeithas Genedlaethol Penaethiaid Cymru
Estyn
Cyngor Ysgolion, Ysgol Uwchradd Gatholig St Joseph
Llywodraethwr Ysgol Gynradd
NUT Cymru
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru
Llywodraethwyr Cymru
Cymdeithas Darlithwyr Ysgolion a Cholegau
Cyngor Ieuenctid Castell-nedd Port Talbot

Grwpiau Buddiant

SNAP Cymru

Aelodau'r Cyhoedd

Michael Spanswick